

Am dro Bangor Gwylltach

Darganfyddwch fyd natur a threftadaeth ym Mangor ar y ddolen hyblyg yma, sydd wedi'i chynllunio i gysylltu llecynnau awyr agored lleol gyda chymunedau lleol.

Llecynnau o ddiddordeb

- 1 Porth Penrhyn** - Porthladd llechi hanesyddol.
- 2 Llecyn gwylio adar** - Bywyd gwyllt golygfaol a gwylio adar
- 3 Hen bont** - Tramffordd lechi hanesyddol.
- 4 Maes G** - Y drydedd stad dai fwyaf yng Nghymru.
- 5 Mynydd Bangor** - Crib olygfaol gyda gwreiddiau hynafol.
- 6 Tŵr y Cloc** - Man cyfarfod tirnod Fictoraidd hanesyddol.
- 7 Hanes Hirael** - Hen gymdogaeth forwrol.
- 8 Bwa Gwesty** - Cartref hanesyddol y Brifysgol.

Cyfarwyddiadau

- 1** Dechreuwch ym maes parcio Harbwr Penrhyn (LL57 4HN, yr harbwr tu ôl i chi) a cherdded i lawr Lôn Las Ogwen am 1.6km.
- 2** Trowch i'r dde dros y bont droed fechan wrth y fainc wedi'i cherfio, croesi afon Cegin, a dilyn y llwybr ar y chwith i fyny'r allt i Faesgeirchen.
- 3** Dilynwch y ffordd yn syth i fyny, wedyn ewch drwy'r giât bren a dilyn y llwybr coetir yn syth i fyny.
- 4** Wrth y tro i'r dde, ewch yn eich blaen i fyny'r llwybr creigiog (neu droi i'r dde am y ddolen fer hygyrch; ewch ymlaen i bin 5 ar y dde).
- 5** Dilynwch y llwybr creigiog i fyny'r allt, heibio'r llannerch wrth y cwrs golff, ac ymlaen yn syth.
- 6** Ewch heibio'r adeilad adeiliedig ar y chwith i chi. Yn y ffordd, trowch i'r dde ar y llwybr glaswellt tuag at y coed.
- 7** Dilynwch y llwybrau i gopa Mynydd Bangor am y man gwylio.
- 8** Ewch yn eich blaen i gyffordd y llwybr, troi i'r chwith i lawr llethr serth, a'i ddilyn rownd tro sydyn i'r dde.
- 9** Yn y ffordd nesaf, trowch i'r chwith y tu ôl i'r tai bach ac ewch i lawr y grisiau.
- 10** Yn y gwaelod, trowch i'r dde, wedyn i'r chwith ar unwaith i lawr York Place i'r Stryd Fawr, a throwch i'r dde.
- 11** Dilynwch y Stryd Fawr am 850m. Wrth y darn o laswellt gyda choed pinwydd, trowch i'r dde i Ben y Bryn.
- 12** Ger yr hen bortico carreg, trowch i'r chwith i lawr y grisiau a chroesi Ffordd y Traeth (A5) tuag at y parc.
- 13** Trowch i'r dde i ddilyn yr A5 i fyny'r allt, trowch i'r chwith yn y gyffordd a dilyn y ffordd yn ôl i'r maes parcio.

Prif llwybr cylch

Llwybr amgen hygyrch

- 5** Dilynwch y llwybr yma drwy'r coetiroedd a thu ôl i'r tai am 660m, wedyn dal i'r chwith yn y ffordd i aros yn y coed.
- 6** Ar ôl 300m, dilynwch y tro sydyn i'r dde nes cyrraedd Ffordd y Castell a throi i'r chwith. Ewch heibio'r cae chwarae, troi i'r chwith i fyny Ffordd Tan y Bryn, wedyn dilyn y llwybr troed ar y chwith i chi.
- 7** Dilynwch y llwybr troed yma at dro i'r dde, wedyn cymryd y tro cyntaf i'r chwith i fyny i'r ffordd nesaf.
- 8** Ym Mhen y Bryn, trowch i'r dde a'i ddilyn i lawr i'r portico carreg. Trowch i'r chwith yno ac ewch yr holl ffordd i lawr i'r Stryd Fawr.
- 9** Trowch i'r dde i'r Stryd Fawr, wedyn troi i'r dde i Ffordd y Traeth (A5). Dilynwch yr A5 i fyny'r allt, troi i'r chwith yn y gyffordd, a dilyn y ffordd yn ôl i'r maes parcio.



Bywyd gwyllt ar y llwybr

Crëyr bach

Egretta garzetta


Mae pwll Cegin yn llecyn perffaith i'r crëyr bach, sydd â choesau du iawn a thraed melyn llachar. Gallwch ei weld yn nythu'n uchel yn y coed.



Llygad Ebrill

Ficaria verna

Chwiliwch am lygad Ebrill melyn euraidd sy'n leinio'r ymylon. Mae gan y perthynas brodorol yma i'r blodyn menynddail sgleiniog, siâp calon a phetalau adlewyrchol.



Blodyn y gwynt

Anemone nemorosa

Yn y gwanwyn, gall y coetir fod wedi'i garpedu gyda blodau gwyn. Maen nhw'n ymledu'n anhygoel o araf, dim ond 1.8m y ganrif; mae grwpiau mawr yn arwydd o goetir hynafol.



Neidr ddefaid


Anguis fragilis

Er ei bod yn debyg i neidr, madfall ddiiniwed heb goesau ydi hi mewn gwirionedd, sy'n gallu blincio, yn wahanol i nadroedd.



Allwedd y Map

-  **Prif lwybr cylch:**
Hyd: 4.4km
-  **Llwybr amgen hygyrch:**
Hyd: 1.5km
-  **Tir anodd:**
Hyd: 1.11km
-  **Coetir**
-  **Safleoedd bysiau**
-  **Llecynnau o ddiddordeb**
-  **Cyfarwyddiadau**
-  **Dechrau'r llwybr**
-  **Diwedd y llwybr**



Esri, Esri Community Maps contributors, and the GIS User Community.

Mae gan Afon Cegin
lawer o rywogaethau
ymledol, fel y
ffromlys chwarennog,
ar hyd ei dyfrffyrdd!



**Ymddiriedolaeth Natur
Gogledd Cymru**
**North Wales
Wildlife Trust**

 **CRONFA
GYMUNEDOL
COMMUNITY
FUND**